



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan
LL330AB

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF NOS FERCHER,
IONAWR Y 13^{eg} 2022**

Yn bresennol: Cadeirydd: Y Faeres Penny Andow; Dirprwy Faer Cyng Christopher Jones; Cyng Laura Fielding; Cyng Carol Gell; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Gareth Wyn Jones; Cyng Christine Roberts;

177. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

178. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau Cyng Delohne Merrell Penderfynwyd derbyn a nodi

179. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Datganodd y Cyng A Hinchliff ei ran ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond cadarnhaodd bod modd iddo aros yn y cyfarfod os nad yw'n gwneud sylwadau ar ei fwriad i bleidleisio Penderfynwyd derbyn a nodi

180. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd:

Bydd Rheolwr Busnes Meddygfa Plas Menai yn bresennol i gynnal adolygiad a thrafodaeth.

Bu i'r Cadeirydd estyn croeso i Richard Marriot a rhoddodd gyflwyniad byr ynghylch y datblygiadau newydd yn y feddygfa.

Nid yw'n syndod bod y pandemig Covid-19 wedi herio gwaith gofal sylfaenol ledled y rhanbarth a thu hwnt ac mae gwasanaethau Meddyg Teulu yn nhref Conwy wedi wynebu ergyd sylweddol. Fel ymateb i gais cyffredinol gan Ymddiriedolaeth Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fe gytunodd y bartneriaeth Meddygon Teulu ym Mhlas Menai i gyflwyno datganiad o ddiddordeb i gymryd yr awenau dros y cytundebau ar gyfer y feddygfa gyfunol rhwng Gyffin a Llys Meddyg yn nhref Conwy. Cyn hynny, roedd y meddygfeydd o dan ofal yr ymddiriedolaeth iechyd. Y rhesymeg yw, gan fod Partneriaeth Plas Menai yn fenter mwy, byddan nhw'n meddu ar lais mwy amlwg o ran y datblygiadau polisi lleol yn ymwneud â Gofal Sylfaenol ac mae'r tîm sefydledig mewn sefyllfa briodol i gynnig gwasanaeth i garfan o 15,000 o gleifion. Ymysg y buddion bydd modd cynnig mwy o wasanaethau ledled Llanfairfechan a Chonwy ac o ganlyniad fe fyddai darpariaeth gofal sylfaenol a theg i'r holl gymunedau sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Cyflwynwyd datganiad eglur gan grybwyll na chaiff Meddygon Teulu o feddygfa Llanfairfechan eu symud i Gonwy. Mae disgwyl y byddai tîm ymroddgar o Feddygon Teulu'n gyfrifol am reoli Meddygfa Conwy. Bydd modd i'r ymarferwyr eraill weithio ledled yr ardal gyda rhai yn ymestyn eu horiau neu drwy groesawu staff newydd i'w timau. Bydd hyn yn gyfle inni fwrw golwg ar ffordd arloesol o gynnig gwasanaethau gofal sylfaenol wedi'u targedu lle mae eu hangen nhw.

Mae'r cytundeb gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'i arwyddo a bydd ar waith o Chwefror 2022 ymlaen. Mae'r feddygfa yn cydnabod mae'n bosib y bydd pryderon ynghylch mynediad ar gyfer meddygfa Llanfairfechan. Fodd bynnag fe ddatganwyd, eto, na chaiff mynediad ei effeithio gan y trefniadau newydd a ni fydd unrhyw newidiadau i wasanaethau meddygfa Llanfairfechan. Bu i Richard estyn diolch i'r Faeres a'r Cyngor Tref am y cyfle i rannu'r wybodaeth a dywedodd bod y feddygfa yn parhau i ymroi i gydweithio i gynnig y gwasanaeth gorau posib i breswylwyr Llanfairfechan a Phenmaenmawr.

Cwestiwn 1 Ynghylch: cleifion o Benmaenmawr sydd wedi'u cofrestru yng Nghonwy ar hyn o bryd. A fydd modd i unrhyw un fynd i unrhyw feddygfa? Caiff y meddygfeydd eu cynnal fel meddygfeydd unigol felly byddai'r cleifion

ond yn mynychu eu meddygfa eu hunain. Fodd bynnag, gallai cleifion ddewis cofrestru yn unrhyw feddygfa o'u dewis nhw fel sydd ar waith ar hyn o bryd a ledled y wlad.

Cwestiwn 2. A fydd yna adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau ymarferwyr arbenigol? Bydd cyfuno'r meddygfeydd yn fodd i'r bartneriaeth ddatblygu gwaith ar y cyd da a phroffesiynol yn ogystal â ffyrdd arloesol o ddatblygu gallu'r ymarferwyr.

Cwestiwn 3. A fydd y feddygfa'n ail-agor ym Mhenmaenmawr? Does dim cynlluniau i ail-agor meddygfa ym Mhenmaenmawr, ond mae'r feddygfa yn cefnogi datblygu Canolfan Llesiant ym Mhenmaenmawr a Chanolfan i Deuluoedd yng Nghonwy o bosibl.

Cwestiwn 4. Allwch chi fod yn fwy penodol ynghylch datblygiadau'n ymwneud â gwasanaethau ymarferwyr eraill? Ymysg y datblygiadau clinigol arloesol, mae tîm ymwelwyr iechyd sydd yn gweithio yn Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan ac yn llyfrgell Penmaenmawr ac mae'n bosib y byddwn ni'n mynd ati i ddatblygu mwy o wasanaethau yn y gymuned. Yn sgil Covid-19, bu modd inni ddatblygu mwy o bartneriaethau ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y clwstwr newydd yn help i gefnogi'r ffordd hon o weithio.

Cwestiwn 5. Allwch chi gadarnhau y byddai'r holl staff yn cadw eu swyddi a ni fydd mewnlifiad o gleifion i Blas Menai, Llanfairfechan? Bydd Meddygon Teulu Plas Menai yn parhau i weithio yn y feddygfa a bydd cleifion o Gonwy yn parhau i fynychu meddygfa Conwy. Bydd y Prif Nyrs Ymarferydd yn cynyddu ei horiau i sicrhau ei bod yn hyblyg a bydd cyfle i ymarferwyr eraill weithio ledled y clwstwr.

Cwestiwn 6. Pryder ynghylch y gallwn ni roi gormod o faich ar bobl a hefyd hoffem wybod sut fyddai'r Ganolfan Llesiant yn edrych? Mae'r ganolfan llesiant yn fenter annibynnol ac mae'r feddygfa yn chwarae rôl gefnogol ar ran y Cwmni Buddiant Cymunedol sy'n bwriadu cynnal y ganolfan. Mae'r feddygfa yn agored i unrhyw lwybrau mynediad a gwasanaeth arloesol. Awgrymiadau y bydd trafodaeth bellach ac mae croeso i breswylwyr gynnig eu hadborth nhw.

Cwestiwn 7. Os oes yna brinder staff yng Nghonwy, a fyddai Llanfairfechan yn colli Meddygon Teulu i lenwi'r diffyg? Does yna neb yn symud ac mae modd i fanteisio ar Feddygon Teulu o bell yn helpu sicrhau caiff y gwasanaeth i gleifion ei gynnal hyd yn oed os oes yna faterion brys. Mae'r feddygfa yn fusnes a bydd yn bwrw golwg ar y ffordd fwyaf effeithlon o sicrhau caiff anghenion eu bodloni'n llawn. Bydd yna gynlluniau wrth gefn ar waith, sydd yn dyngedfennol yn ystod pandemig lle gallai'r staff wynebu salwch. Y brif neges ydy na fyddai'r gwasanaeth ym Mhlas Menai, Llanfairfechan yn dioddef oherwydd y datblygiad newydd hwn. Yn wir, mae'n debyg y byddai'r capasiti yn cynyddu yn sgil gweithdrefnau arloesol newydd yn ymwneud ag ymarferwyr.

Soniwyd y gellir anfon unrhyw gwestiynau pellach at Glerc y Dref ar jayne@llanfairfechan.net a gallwn eu hanfon ymlaen at y feddygfa. Estynnwyd diolch i Richard am ddod i'r cyfarfod ac am rannu'r wybodaeth gyda'r Cyngor Tref.

Penderfynwyd derbyn a nodi

181. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Rhagfyr yr 8^{fed} 2021 a Rhestr Weithredu Ionawr y 12^{fed} 2022

Fe ddsbarthwyd y cofnodion cyn y cyfarfod ac wedi'u nodi wedi'u darllen. Dim materion yn codi.

Rhestr Weithredu wedi'i thrafod fel a ganlyn:

Action and information list for 12th January 2021 Llanfairfechan Town Council				
Covid-19 Alert Level 2 still in operation. Covid-19 Omicron variant been identified				
Item	Action		Date	Ref
1 Amenities (ERF)				
1. gardening	email the CCBC to ask for a meeting to discuss borders and gardening with IE		11/01/2022	
2. PROW	invoice to be submitted re: PROW 2021. Tenders required for 2022? Was C/F due to Covid19		11/01/2022	
3. Parking review Gorwel concerns	emailed CCBC to report concerns awaiting reply		05/01/2022	
4. Nant y Pandy car park	previous ratified decision. **New letter received - to discuss**		06/01/2022	
5 Promenade car park & flood protection project	email sent to CCBC or upadte **County Councillor has information**		05/01/2022	
6 Flytipping at Station Road	email sent prior to Xmas - needs chasing so that progress can be made			
7 Nant y Coed damage	temporary work is being undertaken by CCBC. Officer sending updates	rec	23/11/2022	
8 Benches project	***should this be put onto agenda 2nd February***			
9 Bodlondeb House	concerns about public pathway and slates has been sent to empty homes officer			
2 Cenotaph				
1 slate covering	EO has capacity to complete this job should we order? ***to discuss**			
3 Community Skips				
4 MUGA West Shore				
1 resident concern	the nets are broken and the basketball board needs work again **to discuss**			
5 S164 Contribution Playareas				
1. query from CCBC re: Valley Road	concerns about safety due to car parking. Meeting to be set up with CC and Clerk	email rec	12/01/2022	
2 photo shoot celebration	awaiting info from CCBC and will progress in the next month	email sent	12/01/2022	
6 S164 Victoria Gardens upkeep				
1 IE receipt of funding	funding is available for edible hedgerows but it needs progressing by March	email	06/01/2022	
7 S4 Contribution Bus Shelters				
8 S87 Public Conveniences (Station and Village Rd)				
1 Toilets Station Road	concerns raised about closure. Email sent to CCBC awaiting response **to discuss**		10/01/2022	
9 Audit	concern that external has still not been returned due to Covid-19	email sent	10/01/2022	
10 Elections				
16 Mayor Allowance	Youth services confirmed for Council Chamber paid for by Mayor's Allowance limit numbers to 6			
19 Office & GDPR IT	media trolley is ready for use suggest trial hybrid meeting to try the system out 8date to be arranged*			
21 Petty Cash	Clerk needs to update and claim at February meeting			
22 Photocopier	new offer from company - clerk to update soon			
23 Clerk's & Staff Training	Clerk to enrol on CILCA by the end of March 2022			
25 S137 Grants Local Groups	Application due in from Foodbank - to discuss at February meeting			
28 S19 Grants community facilities	Clerk to arrange payment to Community hall 2021/22			
29 S144 Carnival	Project Officer to contact and discuss joint work for 2022/23			
Action and information list for 12th January 2021 Llanfairfechan Community Planning Partnership				
Covid-19 Alert Level 2 still in operation. Covid-19 Omicron variant been identified				
Big Survey Day planned for 23rd January	**on agenda**			
Big Call Out Day	should we look at running a call out day due to new variant?			
Food & Artisan Markets	booked for 23rd January, 20th February, 20th March			

4. Maes Parcio Nant y Pandy – Mae'r Cyngor Tref eisoes wedi cadarnhau penderfyniad i gymryd yr awenau dros faes parcio Nant y Pandy. Cafodd llythyr cyfreithiol newydd gan GBSC ei ddarllen gerbron y Cyngor Tref ac fe gaiff ei e-bostio i aelodau etholedig er mwyn iddyn nhw gytuno arno'n ffurfiol cyn ymateb i GBSC ar ddydd Llun, Ionawr yr 17^{eg}.

5 Maes Parcio'r Promenâd a'r prosiect amddiffyn rhag llifogydd.

Ynghylch: Difrod i wal y Cob. Derbyniwyd e-bost gan GBSC:

- Mae'r cais am drwydded forol wedi'i gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru cyn y Nadolig ac maen nhw wedi cadarnhau y byddan nhw'n hwyluso cyflwyno'r drwydded. Fodd bynnag, mae yna gyfnod ymgynghorai statudol sy'n lleiafswm o 28 diwrnod lle na ellir ei gwtogi. Rydym yn gobeithio y caiff y Drwydded Forol ei gyflwyno ym mis Chwefror.
- Rydym wedi llwyddo i ennill cyllid gwerth £280mil gan Lywodraeth Cymru fel cyfraniad tuag at y cynllun – rydym yn amcan y bydd cost y cynllun rhwng £330k a £400k
- Unwaith caiff y drwydded forol ei chyflwyno, bydd yn cymryd hyd at 5 wythnos i gyflawni'r gwaith.
- Dylai'r gwaith atgyweirio fod wedi'i gwblhau cyn diwedd Mawrth.

Mae unrhyw ddiweddariadau ar gael ar-lein ar <https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Leisure-sport-and-health/Coast-and-Countryside/Seaside/Beaches-and-Promenades/Coastal-Defence-Projects/Coastal-Defence-Improvements-at-Llanfairfechan.aspx> Y Clerc a'r Cyngorydd Sir i gydweithio gyda'r tîm cyfryngau cymdeithasol i lunio datganiad cyhoeddus.

Caiff y materion hyn eu gwahanu'n ddwy adran ar wahân ar y rhestr weithredu.

Mae'r Clerc wedi e-bostio Conwy i dderbyn y diweddaraaf am y maes parcio – rydym yn disgwyl ymateb.

1.8 Prosiect Meinciau Dylid ychwanegu hyn at yr agenda ar gyfer Chwefror yr 2il.

2.1 Gorchudd y Llechen Senotaff. Gallai EO gwblhau'r dasg hon. Y Clerc i archebu pilen a llechen.

4.1 mae'r rhwydi a'r bwrdd pêl fased wedi'u torri yn yr Ardal Gemau Aml Ddefnydd (MUGA) – Clerc i drefnu gosod rhai newydd a threfnu'r gwaith atgyweirio.

8.1 Tai Bach ar Ffordd yr Orsaf – pryderon gan y preswylwyr ynghylch cau'r tai bach. Anfonwyd e-bost at GBSC ac rydym yn disgwyl ymateb.

19.1 Technoleg Gwybodaeth y Swyddfa a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae'r troli cyfryngau yn barod i'w ddefnyddio. Cyfarfod hybrid prawf i roi cynnig ar y system – dyddiad i'w gadarnhau.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

182. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer cyfethol preswylwyr i'r swyddi gwag yn Ward Bryn a Lafan.

Rhannwyd y newyddion da bod gan 5 o'r preswylwyr ddiddordeb yn y swyddi gwag felly mae'n debygol iawn y caiff y swyddi hyn eu llenwi. Eglurodd y Clerc bod y swyddi wedi'u hysbysebu i gychwyn ar gyfer etholiad ond ni fu i unrhyw ymgeisydd ofyn am etholiad, felly'r cam nesaf ydy cyfethol. Gan gydymffurfio gydag arweiniad ynghylch ymarfer da, mae yna ddau ddewis:

1. Gofyn am Ddatganiad o ddiddordeb a CV ac i'r aelodau Etholedig fwrw pleidlais yn y cyfarfod nesaf ar ddydd Mercher, Chwefror yr 2^{il}
2. Gofyn am Ddatganiad o ddiddordeb a CV yna trefnu panel cyfweld a chaiff yr ymgeiswyr eu cyfweld gyda phenderfyniad terfynol yn y cyfarfod Cyngor Tref ym mis Mawrth.

Soniwyd y byddai'r cyfetholiadau hyn ond ar gael tan fis Mai pan fyddwn yn cynnal yr etholiadau Cyngor Cymuned. O ganlyniad, fe gytunwyd y dylid cynnal dewis 1 a gwneud penderfyniad ar Chwefror yr 2^{il}. Bu pryderon ynghylch hysbysebu, ond fe eglurwyd bod y swyddi gwag wedi'u hysbysebu am beth amser yn ffenest Neuadd Gymunedol y Dref yn ogystal ag ar y wefan ac ar Facebook. Y Clerc i e-bostio'r rheiny sydd â diddordeb mor fuan â phosibl gan rannu eu manylion a'u gwahodd i gyflwyno cais ffurfiol yn ogystal â CV i gyd-fynd â'r cais.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Jones Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

183. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer y Bartneriaeth Cynllunio Gymunedol a'r Prosiect Byw'n Dda

1. Digwyddiad Partneriaeth Gymunedol a Gwirfoddoli – trefnu cyfarfod Ionawr / Chwefror

Cynnig - i gynnal Diwrnod Arolwg Mawr yn yr ystafell Lloyd Hughes yr un amser â'r farchnad ar Ionawr y 23^{ain}. Awgrym – dylai hyn fod yn thematig er mwyn ceisio canfod meysydd diddordeb penodol y preswylwyr. Cafodd ffeithlun ei baratoi ac roedd pobl o'i blaid. Clerc i weithredu ynghylch y cyfieithiadau a'r gwaith marchnata gyda'r Pwyllgor Cyfryngau. Awgrym i argraffu mwy o bosteri ar gyfer polion lampau i hysbysebu'r cynllun cymunedol. Caiff cyfarfodydd pellach eu cynnal ar y cyd â'r cyfleoedd galw heibio sy'n fwy anffurfiol.

2. Gwaith prosiect Byw'n Dda gyda busnesau

Mae cydweithio gyda busnesau ynghlwm â'r cais am gyllid ar gyfer prosiect Byw'n Dda a bu'r Clerc wrthi'n llunio cynnig ar gyfer yr wythnos fusnes ym mis Chwefror. Cytunwyd y dylid cynnal yr wythnos o Chwefror y 14^{ed} hyd at yr 20^{fed} er mwyn osgoi wythnos hanner tymor. Mae Canolfan Fusnes Conwy a Choleg Menai eisoes wedi crybwyll bod ganddyn nhw ddiddordeb i gydweithio gyda'r prosiect. Mae'r Clerc hefyd wedi cwrdd gyda itsLello. Mudiad cefnogaeth busnes yn Llanfairfechan i gydweithio gyda'r Clerc i fwrw iddi gyda'r gwaith a chynnig adborth yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd derbyn a nodi

3. Cynllunio digwyddiadau Cyngor Tref Llanfairfechan – mae hyn wedi'i grybwyll yn y pwyntiau blaenorol

184. Derbyn a chymeradwyo gwybodaeth am amrywiolyn Omicron Covid-19 a'r mesurau fyddai'n cynorthwyo'r Cyngor Tref i weithredu'n ystod y pandemig.

Bu i'r aelodau etholedig ystyried oedden nhw'n teimlo'n barod i ddychwelyd i Siambr y Cyngor ai pheidio.

Pwyntiau i'w hystyried:

1. Mae CBSC yn dal yn cynnal cyfarfodydd rhithiol, fodd bynnag, fe soniwyd y byddwn yn mynd ati i gynnal cyfarfodydd prawf yr wythnos hon.
2. Mae'n debyg fod cyfarfodydd hybrid yn heriol dros ben. Mae'r troli cyfryngau yn gweithio erbyn hyn ac felly fe awgrymwyd ein bod yn cynnal cyfarfod hyfforddiant i weld pa mor effeithiol gallai fod i'w ddefnyddio fel adnodd ar gyfer cyfarfodydd hybrid.
3. Mae Clerc y Dref a'r Swyddog Amgylcheddol yn gweithio yn y neuadd gan ei fod yn agored ac mae angen ei wasanaethu. Mae'r Gweithiwr Prosiect wedi derbyn cyfarwyddiadau i weithio o adref yn unol â'r canllawiau ynghylch Covid-19.

4. Mae Rhybudd Lefel 2 wedi'i wirio ac mae gennym ni wybodaeth ar bapur gan wasanaethau rheoleiddio CBSC sy'n caniatáu inni gynnal ein marchnadoedd. Dydy'r ffigwr o 30 ar gyfer digwyddiad ddim yn cyfrif stonidwyr, staff a gwirfoddolwyr.

Penderfynwyd derbyn a nodi

185. Derbyn y diweddaraf ynghylch trwsio'r arwydd digidol a'r taliadau

Yn dilyn archwiliad gan Vesa Mount, datganwyd na ellir trwsio'r arwydd. Rydym wedi derbyn dyfyniad am uned newydd. Rydym yn disgwyl gwybodaeth gan dîm hawliadau Zurich cyn mynd rhagddi gyda hyn gan y byddai'n golygu cost o £12,000 i'r Cyngor Tref pe na chaiff yr hawliad ei gadarnhau. Mae cryn siom ynghylch yr amser a gymerwyd i gymeradwyo'r hawliad ac ynghylch y datganiad na ellir trwsio'r uned. Fodd bynnag, pe byddai'r Cyngor Tref wedi mynd ati i drwsio'r uned eu hunain, gallai fod ffactorau risg ynghlwm ac mae'n bosibl y byddai'r uned yn torri unwaith eto. Mae'n sefyllfa hynod siomedig ac yn ganlyniad o fandaliaeth. Sefyllfa sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni.

Penderfynwyd derbyn a nodi

186. Trafod a chymeradwyo presept Cyngor Tref Llanfairfechan 2022/23

Soniodd y Clerc am y trafodaethau yn y cyfarfod Presept ar ddydd Llun, Ionawr y 10^{fed} am 7yh.

Yn y cyfarfod, fe gytunwyd y gellir mynd rhagddi gyda'r gyllideb arfaethedig o £125,000 gyda chais presept o £100,000 sydd yr un fath â'r presept yn 2021/2022

(Cynigwyd yng nghyfarfod ddydd Llun gan y Cyng Penny Andow Eiliwyd gan y Cyng Chris Jones).

Trafodwyd a chytunwyd ar y newidiadau i gytundeb y Gweithiwr Prosiect yn y cyfarfod.

(Cynigwyd yn y cyfarfod ddydd Llun gan y Cyng Penny Andow Eiliwyd gan y Cyng Carol Gell).

Clerc i wirio:

- Cyfreithlondebau Adnoddau Dynol ynghylch newid cytundeb y Gweithiwr Prosiect
- Gellir talu'r costau ynghlwm â'r newidiadau i gytundebau'r Gweithiwr Prosiect a'r Swyddog Amgylcheddol gyda'r cronfeydd wrth gefn yn y ddwy flynedd gyntaf ond bydd angen cynyddu'r presept. Dylid nodi bod y Cyngor Tref wedi dychwelyd cyllideb segur yn sgil Covid-19 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan eu bod yn ymwybodol o'r pwysau ariannol i breswylwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Cyfraddau taliadau'r Clerc i sicrhau bod y Cyngor Tref yn cydymffurfio gyda hyn
- Yswiriant ynghylch y troli cyfryngau ac yswiriant i wirfoddolwyr
- Cyfieithiadau Cynllun yr Iaith Gymraeg – ymroddiad i gyfieithu unrhyw ddogfennau cyhoeddus gan gynnwys posteri a chyfryngau cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd angen cynyddu'r gyllideb ymhellach y flwyddyn nesaf. Bydd 2022/23 yn flwyddyn adolygu.

Bu i'r Clerc gadarnhau:

- Mae costau'r pwll padlo sy'n £1800 yn rhan o'r gyllideb graidd

Bu trafodaeth ynghylch a ddylai'r Cyngor Tref ddychwelyd presept segur o £100,000 ond fe gytunwyd ei fod yn angenrheidiol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae teuluoedd yn wynebu amryw heriau ariannol ar hyn o bryd ac mae'r Cyngor Tref yn meddu ar arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo'n ddarbodus er mwyn ein cynorthwyo i orosi yn yr amgylchiadau. Soniwyd y bydd y rôl staff ychwanegol yn cynnig mwy o fodd i ddatblygu ffrydiau cyllid amgen drwy'r marchnadoedd a'r grantiau prosiectau allanol. Mae'r dyfodol yn ansicr dros ben i bawb, a gallai'r sefyllfa fod yn gwbl wahanol ymhen 12 mis. Soniwyd mae'n bosibl y bydd angen cynyddu'r presept yn y flwyddyn ariannol nesaf ond cyllideb segur ar gyfer 2022/23 oedd y datrysiaid tecaf.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Gell Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

187. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol Ionawr

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau a chafodd yr adroddiad ariannol ei dderbyn a'i gymeradwyo.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Gell Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

188. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau ar gyfer Ionawr 2021

1. Cyflogau'r Staff a chyfraniadau pensiwn y Gweithwyr a'r Cyflogwr £4577.28 (yn cynnwys cyllid Byw'n Dda)
2. Lwfans y Cynghorwyr 2021/2022 £150 fesul aelod etholedig i dalu am gostau yn ystod y flwyddyn megis galwadau ffôn, post, teithio ac unrhyw eitemau amrywiol eraill. Gallai'r cynghorwyr ddewis rhoi eu lwfans i elusennau, ond fe gytunwyd yn y Cyngor Tref, er budd amrywiaeth ddemocrataidd, caiff y lwfans ei dalu i bawb. Cyfanswm y gost £1650.00
3. Digwyddiad Hyfforddiant Cymorth Cynllunio Cymru Alun Rhys Jones £40.00
4. Gosod cyfarpar sboncio yng Nghae Chwarae Llanfairfechan Brian Davies LTD £900.00

5. Gwaith cynnal a chadw blynyddol Delwedd £638.72
6. ABS (cost dros ben am lungopiau lliw) £8.98
7. Cyfieithiadau Menter Iaith Tachwedd a Rhagfyr £488.88
8. Gareth Roberts am dynnu a chadw arwydd Digidol £245.00
9. Aelodaeth Un Llais Cymru £624.00
10. Gerddi Fictoria Dŵr Cymru £28.38 Ôl-daliad Rhagfyr y 12^{fed} 2021
11. Sgipiau Cymunedol CBSC £552.00 Ôl-daliad Ionawr yr 2^{il} 2022

Soniwyd er bod y diffibriliwr wedi'i gadarnhau eisoes, dydyn ni heb ei brynu eto. Byddwn yn mynd ati i wneud hyn y mis nesaf.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Gell Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

189. Trafod materion cynllunio

1. 0/49211 1 Tai Twr Ffordd Pen Y Bryn Llanfairfechan LL33 OUA
2. 0/49236 3 Pant Y Carw Ffordd Nant Y Felin Llanfairfechan LL33 OSU
3. 0/49254 Tir gyferbyn â Bryn Celyn, Parc Penmaen, Llanfairfechan, Conwy, LL33 ORL

Cafodd yr holl geisiadau eu hystyried cyn y cyfarfod. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ac fe gytunwyd y dylai'r ymgeiswyr gydymffurfio gyda chyngor a gofynion Swyddogion Cynllunio CBSC. Penderfynwyd derbyn a nodi

190. Derbyn gohebiaeth – yn ystod y pandemig Covid-19, caiff y rhan helaeth o ohebiaeth ei rannu dros e-bost. Llythyr gan Aelod Seneddol Cymru ar ran Aberconwy yn llongyfarch y Cyngor Tref ar eu Prosiect Cymorth ar y Stryd. Cafodd 180 o breswylwyr eu cefnogi a bu inni gyflwyno oddeutu 900 o bresgripsiynau. Soniwyd bod hyn yn gyflawniad anhygoel a bu i'r prosiect gynorthwyo'r gymuned i ddod ynghyd, gan gynnig llinell gymorth ar adeg mor dyngedfennol. Penderfynwyd derbyn a nodi

Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

Cyng Chris Jones – Fforwm Tref a Chymuned Ionawr yr 11^{eg} 2022

Y diweddaraf am gyllideb 22/23 CBSC

Cyflwyniad gan Brian Cossey

Ers Mawrth 2020, mae'r rhan fwyaf o staff CBSC wedi bod yn gweithio o adref yn sgil COVID

Bydd cronfa caledi Llywodraeth Cymru yn dod i ben ar Fawrth yr 31ain 2022

Mae Venue Cymru a Theatr Colwyn Ar Gau

75% o gyllid CBSC (183.308,000) yn dod gan Lywodraeth Cymru sy'n gynydd o 9.5% sef 16 miliwn

Ond mae yna dal bwch cyllid o 7.4 miliwn

Mae angen Cyllid Ychwanegol

Staff Dysgu £2.6 miliwn

Cynnydd i gyflogau staff CBSC £4.8 miliwn

Treth Incwm 1 miliwn

Cynnydd anhysbys i'r llog

Prosiectau adeiladu Ysgolion

Prosiectau cymunedol eraill £306,000

Gwasanaethau Cymdeithasol – cynnig cyflog byw cenedlaethol

Cynnydd sylweddol mewn gofal i Oedolion a Phlant. Mae angen £5 miliwn ychwanegol arny'n nhw

Mae 1 plentyn lle mae cost eu gofal yn £6,000 yr wythnos

Addysg

Ysgol GOGARTH yn cynyddu'n sylweddol felly maen nhw'n chwilio am gyllid ychwanegol

Costau cludiant i ac o ysgolion yn cynyddu

Costau prydau am ddim yn cynyddu £300,000 ac mae hynny cyn i Lywodraeth Cymru addo i dalu am brydau am ddim i bob plentyn ysgol

Dysgu ychwanegol £500,000

Mae angen £175,000 ychwanegol tuag at gerbydau CBSC i dalu am danwydd a chostau rhedeg

Cynnydd o £290,000 yn y gost i lanhau strydoedd yn sgil pobl yn mynd ar wyliau yn agos i adref.

Cynnydd yn y casgliadau gwastraff dyddiol ar ddiwrnod arferol o 4 tunnell i 17 tunnell yn yr haf Canolfannau hamdden yn ceisio £250,000 ychwanegol

Cynnydd o £250,000 i wasanaethau diogelu'r cyhoedd oherwydd yr angen am staff ychwanegol

Cost digartrefedd yn £2.8 miliwn

Beth mae hyn yn ei olygu

Gan fwrw golwg ar achosion busnes, gallai CBSC gefnogi

Toriadau i wasanaethau

Cynnydd mewn treth cyngor

CBSC yn bwrw golwg ar drosglwyddo i Gynghorau Tref

Glanhau strydoedd

Mae'n bosibl bod cyllid ychwanegol ar gael – cysylltu gyda Haf

Ffiniau Etholiadol

Cyflawni'r newidiadau cyn yr etholiadau nesaf

Llanfairfechan heb ei effeithio

Lleihau'r nifer o gynghorwyr sir o 59 i 55

A 38 ward i 30 ward

Bydd 8 yn wardiau aml-aelodau

Newidiadau eraill ers yr etholiadau lleol diwethaf

Gallai pobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio erbyn hyn

Bu i 63% o'r grŵp oedran hyn gofrestru

Cyfleusterau cyhoeddus

Bu i'r Cyng Liz Roberts, cyngor tref Dolwyddelan gynnig awgrymiadau ynghylch cymryd yr awenau dros y Tai Bach Cyhoeddus

1 ddim yn dasg rwydd

2 wedi cymryd dwy flynedd

3 cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r swyddog cefnogol yn CBSC (Steve Teale)

4 trefnu 1 person cyswllt yn y Cyngor Tref

Y gobaith oedd defnyddio Dŵr Llwyd (dŵr glaw) i fflysio'r toiledau, ond roedd dwy broblem ynghylch hyn

1 rhy ddrud

2 ardal casglu ddim digon eang

Mae ganddyn nhw beiriannau cerdyn ar y drysau i gasglu arian a chaiff ei drosglwyddo i gyfrif y Cyngor Tref

Mae casglu arian parod yn denu fandaliaeth a lladrata

Mae ganddyn nhw wirfoddolwr sy'n glanhau'r toiledau

Mae ganddyn nhw fasedi crog y tu allan

Maen nhw'n dymuno'i ychwanegu at trip advisor i hyrwyddo'r pentref

Bu i HealthMatic ddarparu'r drysau, ond maen nhw wedi wynebu problemau gyda'r cwmni

Pwyntiau allweddol gan Greg Robbins

- Un Pwynt Cyswllt
- Ymgysylltu cynnar
- Defnydd o ddŵr llwyd / cynaeafu

Creu busnes hyd braich (Menter Llanfairfechan) er enghraifft

Cronfa Adfer Gymunedol y DU

Yn cynnig 100% o gyllid ar gyfer pecynnau hyfforddiant

Mae'n rhaid sicrhau bod cynllun ar waith erbyn diwedd Tachwedd 2022

Mae'n rhaid llunio adroddiadau blynyddol

Cynllun Cymunedol

100% o gyllid ar gael i'r Cyngor Tref

Mae'n rhaid ceisio amdano cyn diwedd Mehefin 2022

Cyng Alun Rhys Jones

Cyfarfod camau cynnar i drafod prosiect ariannu ar gyfer Glan y Môr Elias

Hyd at 30mil o gyllid ar gael i wella seilwaith mannau naturiol i annog pobl i ymwneud gyda natur.

Cynnig i ddiweddarau byrddau dehongli presennol a gosod rhai newydd ar hyd Glan y Môr Elias ynghyd ag adfer y cuddfannau.

Rydym yn gobeithio y byddai lloches pont droed y promenâd yn rhan o'r prosiect gan fod angen ei atgyweirio'n ddifrifol. Yn ogystal â gwybodaeth am natur, fe ddylid arddangos panorama o'r Mynyddoedd ynghyd â gwybodaeth o ddiddordeb hanesyddol. Cynnig i'w gysylltu i gyllid Carneddau gan fod angen cyllid cyfatebol. Mae'r Cyngor Tref yn cydweithio'n agos gyda swyddogion CBSC i ddatblygu'r cais prosiect. Mae ymweliad safle wedi'i drefnu ar gyfer Chwefror – mae croeso mawr i'r holl aelodau etholedig ddod i'r cyfarfod.

Derbyn sylwadau a chanmoliaethau brys

1. Pryder nad ydy'r llinellau parcio newydd ym Mhen y Bryn wedi datrys y broblem gan eu bod nhw'n rhy fyr. Cytunwyd y dylai'r Cynghorydd Sir a Chynghorwyr y Wardiau gyfarfod i drafod a chynnig adborth.
2. Pryderon ynghylch y llinellau newydd yn Gorwel a'r manau parcio sydd wedi'u dadleoli yn sgil hynny. Soniwyd bod yr ardal hon yn beryglus i gerddwyr. Clerc wedi e-bostio CBSC ac yn disgwyl am ymateb. Soniwyd ei bod yn amhosib mynd i'r afael â'r holl broblemau parcio gan fod y pentref yn rhy fach ar gyfer yr holl geir gaiff eu parcio yma. Cyn gynted ag y bydd llinellau newydd yn ymddangos, mae canlyniadau anfwriadol bob amser.
3. Mae'r blwch ffôn ar y promenâd wedi'i fandaleiddio. Mae hyn wedi'i nodi a bydd BT yn mynd ati i'w drwsio'n fuan.
4. Mae Llanfairfechan Di-blastig yn trefnu digwyddiad codi ysbwriel ym mis Chwefror ac maen nhw wedi gofyn cân nhw ddefnyddio teclynnau codi ysbwriel y Cyngor Tref. Soniwyd mae'n bosibl y byddai'r Rotari yn barod i helpu gyda'r digwyddiad hwn.
5. Mae mwy o waith ar y gweill yn Nant y Felyn i leihau'r perygl o lifogydd. Mae'r tîm yn CBSC yn gweithio'n galed i glirio'r ceuffosydd a gosod systemau newydd i fynd i'r afael gyda dŵr llifogydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:14yh Cyfarfod Nesaf: Cyfarfod y Cyngor Tref ar-lein am 7yh nos Fercher, Chwefror yr 2^{il} 2022.